

Llwybrau Cerdded Treftadaeth

Dewch i ddarganfod Aberdaugleddau trwy gyfres o dri llwybr treftadaeth newydd, yn ardal y glannau Aberdaugleddau, a grëwyd gan bobl ifanc yr ardal.

Crëwyd tri llwybr cerdded treftadaeth sy'n dathlu straeon a naws am le ein tref, i bawb eu mwynhau. Cafodd prosiect a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac a gydlynwyd gan Milford Youth Matters, ei lansio yn 2021, a gofynnwyd i ddisgyblion Ysgol Aberdaugleddau ymchwilio i straeon am 'Ein Hafan Hanesyddol', 'Teyrnas Ynni' a'r 'Dyfrffyrdd', sef y themâu allweddol sy'n gwneud Aberdaugleddau yn lle mor unigryw.

Fe wnaeth y criw ifanc waith gwyh, nid yn unig o hel straeon diddorol am hanes Aberdaugleddau, ond hefyd am wneud gwaith dylunio creadigol tu hwnt i gyd-fynd â'u hanesion. Aeth panel o feirniaid ati i adolygu 30 a mwy o geisiadau, a dewiswyd detholiad ohonynt i'w cynnwys ar ein gwefan. Rydym yn falch o dathlu straeon Aberdaugleddau gyda'r tri Llwybr Cerdded Treftadaeth ar hyd y glannau, a rhannu'r stori lawn ar ein gwefan.

Hafan Hanesyddol

Mae Aberdaugleddau yn gyfuriog o hanes. O'r Llychlynwyr i helwyr morfilod, o fôr-ladron i'r Tuduriaid. Mae ein llwybr 'Hafan Hanesyddol' yn cynnwys 4 arhosfan rhwng Phoenix Bowl a safle newydd Tŷ Hotel, lle gallwch stopio a sganio'r cod QR i ddarllen y straeon llawn a ysgrifennwyd gan ieuenctid ein tref. Cadwch lygad am y baneri coch ar y polion lamp, a manylion am sut i ddarllen y straeon llawn ar yr arwyddion isod.

1 – Hanes Aberdaugleddau

Mae Aberdaugleddau wedi gweld Llychlynwyr, brenhinoedd Tuduraidd, goresgynwyr a llyngesyddion. Dilynwch llwybr hanesyddol yr ardal o 1793 hyd heddiw. Dysgwch am y dyfrffyrdd mawr eu bri drwy'r oesau a sut y cafodd ein tref ei henwi.

Mae Aberdaugleddau wedi gweld Llychlynwyr, brenhinoedd Tuduraidd, goresgynwyr a llyngesyddion. Roedd Nelson yn edmygwyr mawr o'n dyfrffyrdd yn ôl pob sôn. Ffurfiwyd dyfrffordd ddofn Aberdaugleddau tua 10,000 CC wedi i foryd orlifo. Mae'n hafan sy'n ffurfio harbwr naturiol sydd wedi'i ddefnyddio fel porthladd ers yr oesoedd canol, er nad oedd tref Aberdaugleddau yn bodoli tan 1793 pan gafodd ei sefydlu gan Syr William Hamilton.

Mae gan y ddyfrffordd hanes hir fel glanfa ar deithiau môr i Iwerddon ac fe'i defnyddiwyd fel lloches gan y Llychlynwyr. Datblygodd yr enw Saesneg 'Milford' o'r hen enw Sgandinafidd Melrfjodr, 'Melr' sef traethell neu fanc tywod 'fjodr' sy'n golygu fjord neu gilfach, ac mae'n dwyn i gof treftadaeth Lychlynaidd yr ardal. Ychwanegwyd yr elfen 'Haven' yn ddiweddarach.

Fe wnaeth Charles Greville, nai Syr William Hamilton, wahodd saith teulu o Grynwyr a oedd yn helwyr morfilod o Nantucket, New England, i ymgartrefu yn Aberdaugleddau a dechrau fflyd hela morfilod. Er mai byrhoedlog oedd hanes hela morfilod yn y ddyfrffordd, ond dyma ei 'Hoes Olew Gyntaf'. Aeth Aberdaugleddau ymlaen i fod yn ardal bysgota hollbwysig. Dyma'r chweched porthladd pysgota mwyaf ym Mhrydain erbyn 1906, gyda thros 500 o bobl yn gweithio yn y diwydiant a oedd yn ffynnu gydol hanner gyntaf yr ugeinfed ganrif - cyn dechrau edwino yn y 1950au wrth i gyflenwad pysgod yr Iwerydd ddiflannu'n raddol.

Erbyn diwedd y 1860au, adeiladwyd caerâu ar hyd y ddyfrffordd a fyddai'n cael eu defnyddio fel barics i filwyr neu ar gyfer gynnu a chanonau er mwyn amddiffyn yr arfordir rhag cyrchoedd. Saif Pier Wards ar lan ogleddol Aberdaugleddau ac fe'i hadeiladwyd yn 1872 er mwyn annog llongau trawsiwerydd i ddadlwytho yno, gyda chyfnewidfa rheilffordd a morol, diolch i'w gysylltiad â'r brif lein drenau. Yn ystod y Rhyfel Byd Gyntaf, defnyddiwyd yr hafan fel man ymgynull i gonfoi o longau masnach ar eu ffordd i Gibraltar, ac fel canolfan ar gyfer llongau-Q arfog a oedd yno i wrthsefyll llongau tanfor yr Almaenwyr oddi ar arfordir Sir Benfro. Roedd yr harbwr mor bwysig i bysgotwyr Gwlad Belg, nes iddyn nhw hwylio eu llongau pysgota



gyda'u teuluoedd a'u heiddo prin i hafan ein tref wych ac aros yma gydol y rhyfel, wrth i luoedd yr Almaen sgubo drwy eu gwlad ar ddechrau'r rhyfel. Gallwch weld cofeb y Belgiaid ar frig y 'Rath'. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, dewiswyd Aberdaugleddau fel cartref i filwyr cynghreiriol yr Unol Daleithiau a chafodd Pier Wards ei droi yn depo ar gyfer arfau'r Llynges Frenhinol. Mae'r Ddyfrffordd yn rhan bwysig o'r ardal hyd heddiw, ac mae'r llongau sy'n mynd a dod yma'n olygfa ysblennydd. Mae Dociau Aberdaugleddau bellach yn farina modern sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 30 oed eleni.

2 – Crynwyr a physgotwr morfilod

Mae gan bob stryd enw a hanes unigryw! Dysgwch am deuluoedd y Crynwyr o Nantucket a Martha's Vineyard, am y fasnach hela morfilod ac am eu heffaith ar Aberdaugleddau hyd heddiw!

Cyn sefydlu tref Aberdaugleddau, byddai'r Llychlynwyr yn defnyddio'r ddyfrffordd i gysgodi yn ystod y gaeaf a llongau o Iwerddon yn docio ym mhentref bach Hakin. Yn ddiweddarach, cafodd Syr William Hamilton Ddeddf Seneddol i ganiatáu iddo adeiladu porthladd yn 1790. Ar ôl etifeddu'r tir gan ei wraig, aeth ef a'i nai, Charles Greville, ati i wahodd teuluoedd y Crynwyr o Nantucket a Martha's Vineyard yn America i ymgartrefu yma, adeiladu'r dref newydd a datblygu fflyd o gychod morfila.

Cyrhaeddodd 23 o deuluoedd o Grynwyr dros y blynyddoedd nesaf, gyda'r rhai cyntaf yn glanio ar long y 'Maria.' Daeth y teuluoedd â llawer o sgiliau gyda nhw a helpodd i adeiladu'r dref newydd. Aeth y Crynwyr ati i godi Tŷ Cwrdd sy'n dal i gael ei ddefnyddio yn y dref, a lle mae llawer o'r teuluoedd cynnar wedi'u claddu. Adeiladwyd y rhes gyntaf o dai - a elwir yn Hamilton Terrace heddiw (neu Front Street fel y mae'r trigolion lleol yn ei alw) yn edrych dros yr harbwr ar gyfer capteiniaid y llongau morfila. Cafodd llawer o strydoedd y dref newydd hon eu henwi gan y Crynwyr gwreiddiol, fel Starbuck Road a Fulke Street. Byddai'r fflyd o gychod morfila o Aberdaugleddau yn hwylio i'r cefnforoedd deheuol i hela morfilod. Defnyddiwyd bloneg y morfilod ar gyfer goleuadau stryd dinasoedd fel Llundain. Cafodd darnau o esgyrn morfilod eu defnyddio mewn eitemau fel corsedau a sebon. Mae cartref Samuel Starbuck, adeilad rhestredig gradd 2 a adeiladwyd tua 1800, yn dal i sefyll ar 'fryn y meddygon'.

Mae un o adeiladau hynaf y dref yn gartref i'r Amgueddfa bellach. Ers talwm, warws ar gyfer storio olew morfilod ydoedd cyn anfon yr olew i'r dinasoedd mawr. Roedd y peiriannydd enwog Isambard Kingdom Brunel am ddefnyddio hafan y ddwy Gleddau er mwyn i longau trawsiwerydd hwylio i America, felly aethpwyd ati i ddechrau adeiladu'r dociau yn y 1870au - ond pan agorodd y dociau yn 1888, llong bysgota'r 'Sybil' oedd y cyntaf i hwylio yno. Arweiniodd hyn at y dreftadaeth bysgota anhygoel sydd gennym heddiw.

3 – Dechreuad diddorol Aberdaugleddau

Dysgwch am sylfaenwyr diddorol Aberdaugleddau a sut y cafodd ein strydoedd hoff eu henwi. Hefyd, beth sy'n gyffredin rhwng Charles Greville, William Hamilton a'r Arglwydd Horatio Nelson.

Gadewch inni ddechrau gyda Charles Greville (mae Greville Road a Charles Street wedi'u henwi ar ei ôl). Charles oedd mab Francis Greville, Iarll 1af Warwig ac Elizabeth Hamilton. Fe weithiodd Charles mewn amryw o swyddi, a chyfarfod â menyw o'r enw Emma Hart yn un ohonynt. Roedd Emma yn wraig brydferth a syrthiodd Charles mewn cariad â hi ar unwaith a'i chymryd fel meistres. Bu Emma a Charles gyda'i gilydd am gyfnod, ond sylweddolodd Charles fod angen gwraig gyfoethocach i ailgyflenwi ei goffrau. O ganlyniad, daeth Emma yn dipyn o ddraenen yn ei ystlys. Llwyddodd Charles i berswadio ei ewythr cyfoethog, William Hamilton, sylfaenydd Aberdaugleddau, i gymryd Emma oddi arno. Cwmpodd William ac Emma mewn cariad yn syth bin, gan briodi ym mis Medi 1791, pan oedd Emma yn 26 oed a William yn drigain oed. Buont yn briod yn hapus iawn am flynyddoedd lawer. Oherwydd hyn, roedd Charles yn hynod ddiolchgar iawn i William a phenderfynodd ei helpu gyda'i dref. Felly, aeth Charles ati i wahodd rhai o Grynwyr a helwyr morfilod Nantucket draw i Aberdaugleddau. Y Crynwyr a'r heliwr morfilod cyntaf i gyrraedd oedd Samuel Starbuck ac adeiladwyd Priory Lodge fel cartref ar ei gyfer. Ar ôl i Samuel ymfudo i Aberdaugleddau, ysgrifennodd yn ôl i Nantucket a'u hargyhoeddi i ymuno ag ef. Dyma sut y clywodd yr Arglwydd Horatio Nelson am 'Marvellous Milford'. Yr Arglwydd Nelson oedd un o'r cadlywyddion morol mwyaf llwyddiannus, ac fe gafodd yntau affêr gyda'r Fonesig Emma Hamilton! Roedd y Fonesig Emma yn ysu am blant, ond roedd William yn rhy hen i

hynny. Felly, syrthiodd Emma mewn cariad â'r Arglwydd Nelson a chael merch fach gydag e, a'i galw'n Horatia.

A dyna i chi rai o sylfaenwyr diddorol ein tref fach ni!

4 - Aberdaugleddau hanesyddol

Saif y dref hon, sy'n gyforiog o hanes, ar aber dwy afon - Cleddau Ddu a Chleddau Wen.

Yn nrama William Shakespeare, Cymbeline, mae Imogen yn dweud: "Tell me how Wales was made so happy as to inherit such a haven?"

Wel, dyma sut...

Mae porthladd yn Aberdaugleddau ers yr oesoedd canol, ac ar hyd y blynyddoedd, mae wedi gweld goresgynwyr, môr-ladron, croesgadwyr, brenhinoedd, masnachwyr môr ac arweinwyr ynni byd-eang yn ei hanes!

Wedi'r Llychlynwyr, y nodwyd eu presenoldeb gan y Brenin Hubba (a arweiniodd at enwi ardal Hubberston heddiw), daeth y Normaniaid, Harri'r I a Harri'r VII yma. Ganed Harri'r VII yng Nghastell Penfro yn 1457.

Yn 1970, cyflwynodd Syr William Hamilton, tirfeddiannwr a diplomydd cyfoethog, gais i Senedd San Steffan i ddatblygu Aberdaugleddau fel tref a harbwr, a phasiwyd Deddf yn yr un flwyddyn. Penododd ei nai Charles Greville i gyflawni'r dasg. Roedd wedi etifeddu'r tir gan ei wraig gyntaf Catherine. Mae'r ddau wedi'u claddu yn Hen Eglwys Slebech!

Yn 1793, fe wnaeth Syr William wahodd saith teulu o Grynwyr o Nantucket yn yr Unol Daleithiau i ymgartrefu yn Aberdaugleddau a datblygu'r diwydiant morfila. Roedd cryn alw am olew morfilod ar gyfer goleuadau stryd yn y dyddiau hynny. Teulu'r Starbucks oedd y cyntaf i gyrraedd yma – byddwch yn gyfarwydd â'r enw!!!

Maes o law, gwahoddwyd y Llynges i greu iard longau er mwyn adeiladu llongau rhyfel! Yn ystod yr Ail Ryfel Byd roedd milwyr Americanaidd wedi'u lleoli yn Aberdaugleddau a defnyddiwyd traethau'r ardal i ymarfer at yr hyn a arweiniodd at laniadau llwyddiannus D-Day, gan fod yr amodau'n debyg iawn i rai Normandi.

Wedi hynny, cwblhaodd cwmni Esso waith yn 1960 gyda hyn yn arwain at greu un o derfynellau mwyaf LNG yn y byd [LNG De Hook].

Mae Aberdaugleddau wedi dod yn bell.... Ewch i Amgueddfa Aberdaugleddau i fwynhau hanes diddorol "Thou Blessed Milford!"

Cafodd y straeon hyn eu hymchwilio a'u hysgrifennu gan ddisgyblion Ysgol Aberdaugleddau, sydd wedi defnyddio eu creadigrwydd i adrodd hanes Aberdaugleddau yn eu geiriau eu hunain.

